## Adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

**9 Mehefin 2008**

**Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

Rwy'n croesawu adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gyhoeddwyd ddydd Llun 9 Mehefin. Mae'r adroddiad yn dystiolaeth o barodrwydd y pedwar comisiynydd i gydweithio i roi bywyd gwell i holl blant a phobl ifanc y DU, a hynny drwy hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Adroddiad y Comisiynwyr Plant yw'r darn olaf o dystiolaeth sydd i'w gyflwyno i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig cyn iddo gynnal ei archwiliad cyfnodol o Barti Gwladwriaeth y DU yn yr hydref. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei adroddiad ei hun, sef *Gweithredu'r Hawliau: Rhoi Hawliau Plant a Phobl Ifanc ar waith yng Nghymru*, ym mis Mawrth 2007. Ym mis Tachwedd 2007, dilynwyd yr adroddiad hwn gan 'adroddiad amgen y corff anllywodraethol', *Aros, Edrych, Gwrando: sut mae gwireddu hawliau plant yng Nghymru*, a baratowyd gan Achub y Plant ar ran Grŵp Monitro CCUHP Cymru. Ym mis Tachwedd hefyd, cyhoeddodd y Ddraig Ffynci ddau adroddiad, *Ein Hawliau Ni, Ein Stori Ni* a *Pam bod oedrannau pobl yn mynd i fyny, nid i lawr?*, ar sail ymchwil a wnaed gyda thua 12,000 o bobl ifanc 11-18 oed a 2,500 o blant 7-10 oed.

Ar y cyd, mae'r adroddiadau hyn yn cynnig darlun unigryw o i ba raddau y gall plant a phobl ifanc yng Nghymru arfer eu hawliau o dan y CCUHP. Mae ehangder y dystiolaeth hon, a'r safbwyntiau gwahanol a gynigir gan yr adroddiadau, yn sylfaen i drafodaeth barhaus ac adeiladol ar hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Pleser mawr i mi yw bod yr adroddiad yn cydnabod y cynnydd rydym yn ei wneud o ran cyfranogiad, eiriolaeth a chwarae plant a phobl ifanc, a'i fod hefyd yn cydnabod ein hymdrechion parhaus i newid y gyfraith mewn perthynas â chosbi corfforol. Byddwn yn ystyried yn ofalus argymhellion y Comisiynwyr ynghylch meysydd sy'n parhau i achosi pryder, fel lefelau'r tlodi ymysg plant, gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl. Byddwn hefyd yn ystyried pa drafodaethau eraill y mae angen eu cael â Llywodraeth y DU ar feysydd sydd heb eu datganoli, fel cyfiawnder ieuenctid a'r driniaeth a roddir i ffoaduriaid a cheiswyr lloches – meysydd sydd o bryder arbennig yn yr adroddiad.

Dylai Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant a phobl ifanc yn y DU fod ar gael erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ystod haf 2009, ar ôl i'r Sylwadau Terfynol hyn gael eu hystyried gan Senedd y DU, ein bwriad yw cynnal cynhadledd, ar y cyd ag Achub y Plant a'r Ddraig Ffynci, i ystyried goblygiadau'r rhain i Gymru. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol, y sector anllywodraethol (NGO), a chyda phlant a phobl ifanc eu hunain, i ddatblygu Hawliau'r Confensiwn yng Nghymru.

Fel eiriolwr annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc, mae Comisiynydd Plant Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r nod hwn, ac unwaith eto rwy'n croesawu'r adroddiad hwn gan bedwar Comisiynydd Plant y DU.